# GWEDDI



WORSHIP & TEACHING

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT

ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



WORSHIP & TEACHING

# Gweddi

## PAM?

Efallai mai un o brif bwrpasau gweddi yw cyfochri ein hewyllys ninnau gydag ewyllys Duw, ac felly rydym yn gweddïo 'Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd'. Efallai y byddwn yn gweddïo ar gyfer y ddaear mewn ymateb i bob mathau o argyfyngau amgylcheddol, ond, dylen ni weddïo am y ddaear yn rheolaidd, fel rhywbeth pob dydd, am y rhesymau hyn:

- **Oherwydd rydym yn caru Duw, ac yn naturiol rydym eisiau cydnabod cariad Duw at yr holl greadigaeth.** Pan fyddwn yn gweddïo am y ddaear rydym yn rhannu ym mhleser a phryder Duw am y greadigaeth gyfan.

- **Am ein bod yn gweddïo'n naturiol am y pethau dan ein gofal, ac yn gofalu fwy am y pethau rydyn ni'n gweddio amdanyn nhw,** mewn cylch rhinweddol o weddïo a gofalu, myfyrio a gweithredu. Wrth i ni gyfochri ein hewyllys ni gydag ewyllys Duw, rydym yn ffurfio o fewn ein hunain – neu, yn hytrach, mae Duw yn ffurfio ynom ni – awydd i weithredu.

- **Am fod angen i ni ddysgu iaith sy'n llai hunanol, er mwyn ail ddarganfod ein lle o fewn y greadigaeth, a'n dibyniaeth ar y greadigaeth gyfan.** Wrth i ni ymarfer gweddïo am y ddaear, rydym yn ehangu ein dealltwriaeth o'r problemau, a'n gallu i weithredu'n effeithiol.

- **Am ein bod yn gallu meddwl am ddynoliaeth fel 'offeiriadaeth' y greadigaeth, sy'n rhoi llais i'r ganmoliaeth ddiddiwedd y mae'r greadigaeth gyfan yn ei chynnig i'w chreawdwr.** Mae'r geiriau sydd ar gael i ni yn gyfaredd, neu'n rhodd gan Dduw, sy'n ein galluogi i weithredu pwrpas Duw, i ni ac i'r byd i gyd.



WORSHIP & TEACHING

# Gweddi

## SUT?

Mae'r Eglwys Eco yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o draddodiadau Cristnogol, fell bydd pob un ohonom eisiau darganfod ein diwylliant ein hunain ar gyfer gweddïau o'r fath:

- Efallai y gallem weddïo am y ddaear ar achlysuron arbennig, fel Diolchgarwch am y Cynhaeaf, neu Ddydd Sul y Creu.

- Ni ddylai gweddïo am y ddaear fod yn weithgaredd anarferol sy'n digwydd ar adeg neu mewn lle penodol, neu ar gyfer mathau penodol o bobl (e.e. yr 'eco-ffyddlon'). Dylai fod yn rhan 'arferol' a 'phob dydd' o weddïau cyhoeddus a phreifat yr holl bobl Gristnogol.

- Mantais defnyddio cylch gweddi – p'un a yw'n wythnosol, yn fisol neu'n flynyddol – yw ei gyfuniad o ddisgyblaeth ac amrywiaeth. Mae'n ein helpu ni i osgoi'r duedd i wneud dim byd, am nad ydyn ni'n gallu penderfynu beth i'w wneud; neu'r demtasiwn i ddal ymlaen i ddychwelyd at ein hoff bynciau gan anwybyddu eraill; neu'r duedd i fynd yn gaeth mewn cylch diflas, heb ffocws digon eang.

- Mae'r rhan fwyaf o ddulliau gweddïo'r eglwys yn tueddu i fod wedi eu rhannu'n baragraffau ar themâu penodol. Gallwch chi roi gweddi am y ddaear i mewn fel paragraff ar wahân neu ei integreiddio gyda gweddïo am genhedloedd y byd.





# Gweddi

## DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Rydym yn aml yn teimlo y dylai gweddi fod yn fyrfyfyr, ond mae'n gallu bod yn anodd gweddïo os nad ydym yn gwybod sut y dylen ni fod yn gweddïo. Dyma rai adnoddau a allai eich helpu, p'un a ydych chi'n unigolyn neu'n eglwys:

Mae gan A Rocha UK ddyddiadur gweddi chwarterol sy'n ymwneud â phob maes o'n gwaith a fydd yn eich helpu i amrywio eich gweddïau i ystyried yr amgylchedd: https://arocha.org.uk/prayer-diary/

Mae A Rocha International yn cynnig 26 o weddïau ar gyfer yr argyfwng ecolegol a hinsawdd: https://atyourservice.arocha.org/en/26-prayers-for-the-climate-and-ecological-emergency/

Dyma rai o'r syniadau am orsafoedd gweddi awyr agored gan y tîm Engage Worship: https://engageworship.org/ideas/were-going-prayer-hunt-outdoor-prayer-stations

Gweddi ac Ymprydio ar gyfer yr hinsawdd, darparu mannau gweddi misol i gadw ein ffocws yn ffres a'i ddiweddaru'n rheolaidd: https://prayandfastfortheclimate.org.uk/

Mae Eglwys Fethodistaidd Bramhall yn aml yn gwahodd gwyddonwyr i mewn fel siaradwyr gwadd sy'n esbonio sut mae eu dealltwriaeth yn effeithio ar y ffordd y maen nhw'n gweddïo: https://www.bramhallmethodists.org.uk/pfop-programme

https://scienceandprayer.bramhallmethodists.org.uk/

Mae'r ddau gorff Tearfund a Green Christian yn cadw gweddi am yr hinsawdd wrth wraidd eu gwaith ac yn cynnig adnoddau i ninnau wneud hynny hefyd: https://www.tearfund.org/campaigns/reboot-campaign/prayer-for-the-climate

https://greenchristian.org.uk/resources/prayer-guide/





# Gweddi

**LLYFRAU A AWGRYMWN**

*Praying for the Earth*, Rob Kelsey, Sacristy Press, 2021. Adnodd gweddïau hynod o eang yw hwn i gynulleidfaoedd ac unigolion ac, yn hael iawn, mae Rob yn rhoi'r elw net o'i werthu i'r Eglwys Eco.

*A Time for Creation*, Robert Atwell, Christopher Irvine a Sue Moore, Church House Publishing, 2020

*The Earth Cries Glory*, Steven Shakespeare, Canterbury Press Norwich, 2019

*God's Good Earth*, Anne Rowthorn, Liturgical Press, 2018

*The Healer's Tree*, Annie Heppenstall, Wild Goose Publications, 2011

## ASTUDIAETH ACHOS

Mae Eglwys St Mark, Winshill, wedi creu teithiau cerdded mewn gweddi i dywys pobl o amgylch eu cymunedau gan weddïo am y byd. Mae gan bob un fapiau a lluniau gwych a gweddïau sain byr i ennyn diddordeb y cerddwyr: https://www.stmarkswinshill.co.uk/prayer-walks